

Taflen Weithgaredd  
**2**

# ADAR GARDD GEFN GWYCH

(a sut i'w hadnabod)

Mae'r byd natur o'n cwmpas yn llawn adar - miloedd ohonyn nhw.... ond mae'n rhaid ichi edrych yn fanwl a gwrando'n astud i'w hadnabod.

## BYDD ANGEN...

- Hadau adar yr ardd, calon afal neu aeron.
- Bath adar neu ddŵr bas (ymhell o afael cathod).
- Llygaid craff (defnyddiwch sbienddrych os oes gennych chi un).
- Clustiau craff (mae gwrando gyn bwysiced ag edrych).
- Pen/papur neu ffôn i gofnodi'ch canfyddiadau.

Beth am inni chwarae bingô adar ar daith i ddarganfod adar!

## TITW TOMOS LAS



**Maen nhw'n nythu...** mewn mannau diogel a chynnes mewn craciau neu dyllau mewn hen goed.

**Maen nhw'n rhyfeddol oherwydd...** eu bod yn acrobatig ac maen nhw'n aros yn y Deyrnas Unedig. Nid ydynt yn mentro'n rhy bell o'r fan lle deoron nhw.

## BRÂN DYDDYN

**Maen nhw'n nythu...** mewn nythod mawr unig, fel arfer fry i fyny mewn coed tal.

**Maen nhw'n rhyfeddol oherwydd...**

eu bod yn hynod ddeallus a gallan nhw hyd yn oed ddefnyddio offer syml.



## PIODEN



**Maen nhw'n nythu...**

mewn nythod mawr cromennog mewn coed tal neu mewn llwyni dreiniog.

**Maen nhw'n rhyfeddol oherwydd...**

ar ôl iddyn nhw ddod o hyd i gymar, maen nhw'n aml yn aros gyda'i gilydd am weddill eu hoes.

## ROBIN



**Maen nhw'n nythu...**

wedi'u cuddio ger y ddaear neu ar y ddaear mewn pantiau a craciau o dan wrychoedd.

**Maen nhw'n rhyfeddol oherwydd...**

eu bod yn sionc, yn serchog ac un o blith ychydig iawn o rywogaethau sy'n canu drwy'r gaeaf.

## DRUDWEN



**Maen nhw'n nythu...** mewn gwagleoedd mewn coed a thyllau mewn adeiladau allanol (neu dai hyd yn oed).

**Maen nhw'n rhyfeddol oherwydd...**

eu bod yn ymgasglu mewn niferoedd ac plymio yn yr awyr mewn murmur.

## ADERYN Y TO



**Maen nhw'n nythu...**

yn agos at ei gilydd mewn llwyni a gwrychoedd, weithiau mewn cilfachau mewn adeiladau.

**Maen nhw'n rhyfeddol oherwydd...**

eu bod yn gallu hedfan ar gyflymder o hyd at 50km yr awr, maen nhw'n ddeallus ac mae ganddyn nhw un o'r ymenyddiau mwyaf.

Peidiwch byth â chyffwrdd yn yr wyau neu darfu ar nyth gan ei bod yn hawdd rhoi braw i adar ac fe allen nhw adael y nyth yn llwyr!

## Mwynhewch y darganfod!

